

Peiriannydd Prosesau

Cyflwyniad

Fel Peiriannydd Proses, byddwch yn astudio'r ffordd y caiff deunyddiau crai eu defnyddio yn y broses weithgynhyrchu, a sut maen nhw'n ffurfio'r cynnyrch gorffenedig yn y pen draw. Byddwch yn helpu i ddatblygu prosesau newydd, ac yn gwella rhai sydd eisoes yn bodoli.



Gweithgareddau Gwaith

Fel Peiriannydd Proses, byddwch yn astudio'r ffordd y caiff deunyddiau crai eu defnyddio yn y broses weithgynhyrchu, a sut maen nhw'n ffurfio'r cynnyrch gorffenedig yn y pen draw. Byddwch yn helpu i ddatblygu prosesau newydd, ac yn gwella rhai sydd eisoes yn bodoli. Gallech fod yn gweithio gyda chynhyrchion fel:

- paent
- bwyd
- olew
- ynni gwyrdd
- cynhyrchion gofal iechyd
- ceir
- gwydr
- plastigau

Bydd eich rôl yn amrywiol iawn, oherwydd byddwch yn rheoli'r broses weithgynhyrchu gyfan o'r dechrau i'r cynnyrch gorffenedig. Gallai eich dyletswyddau gynnwys:

- dylunio a gosod systemau gweithgynhyrchu newydd neu well
- defnyddio offer dadansoddi data i'ch helpu i ddadansoddi systemau newydd a phresennol
- cynnal archwiliadau ansawdd mewn labordy i wneud yn siwr bod popeth yn gweithio fel y dylai
- cynnal profion diogelwch ac amgylcheddol mewn labordy ac ar linell gynhyrchu
- creu dogfennau i ategu'r systemau a'r prosesau newydd
- cyfathrebu ac esbonio newidiadau arfaethedig i'r tîm rheoli
- cynorthwyo a hyfforddi peirianwyr eraill
- gweithio gyda llawer o wahanol adrannau, gan gynnwys cynhyrchu, cynllunio a dylunio

Rhinweddau Personol a Sgiliau

I ddod yn Beiriannydd Proses, bydd angen y canlynol arnoch:

- sgiliau TG, gan gynnwys defnyddio meddalwedd efelychu a systemau gweithgynhyrchu
- sgiliau dylunio rhwydwaith
- sgiliau profi systemau
- parodrwydd i gynnal eich gwybodaeth am ddatblygiadau mewn technoleg yn y maes hwn sy'n newid yn gyflym
- Y gallu i weithio o fewn terfynau amser tynn
- Sgiliau datrys problemau
- y gallu i arwain tîm o beirianwyr

Cyflog a Chyfleoedd

Cyflog

Mae'r cyfraddau cyflog sy'n cael eu rhoi isod yn rhai bras:

- Cyflog cychwynnol: £30,000 - £34,500

- Gyda phrofiad: £36,500 - £43,000
- Mae Uwch Beirianwyr Proses yn ennill £46,000 - £50,500

Oriau gwaith

Byddwch yn gweithio tua 35-40 awr yr wythnos fel arfer, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'n bosibl y bydd angen gorffen yn hwyr a gweithio ar y penwythnos weithiau.

Ble allen i weithio?

Mae cyflogwyr yn cynnwys cwmnïau gweithgynhyrchu yn y diwydiannau canlynol:

- ynni adnewyddadwy
- cemegol
- awyrofod
- modur
- olew a nwy
- bwyd a diod
- nni

Ble mae swyddi'n cael eu hysbysebu?

Mae swyddi gwag yn cael eu hysbysebu mewn papurau newydd lleol/cenedlaethol, cyhoeddiadau masnach y diwydiant, yn y Ganolfan Byd Gwaith ac ar y wefan Universal Jobmatch.

Gellir dod o hyd i swyddi hefyd trwy asiantaethau recriwtio arbenigol ym maes peirianeg.

Mae GreenJobs yn fwrdd swyddi ar gyfer pobl sydd â diddordeb mewn gyrfaedd gwyrdd:

www.greenjobs.co.uk/browse-jobs/engineering/

Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Llwybrau mynediad Fel arfer, bydd cyflogwyr yn disgwyl bod gennych chi HND, HNC neu radd er mwyn dechrau ar yr yrfa hon. Serch hynny, os ydych chi'n ystyried gadael ysgol ar ôl i chi orffen eich Safon Uwch, fe allech chi gael swydd lefel is yn un o'r meysydd a ganlyn a hyfforddi ar y swydd:

- cynhyrchion fferyllol
- diwydiant prosesau cemegol
- peirianeg fecanyddol
- peirianeg gweithgynhyrchu
- peirianeg cynhyrchu

Ar ôl cwblhau eich Safon Uwch, mae'n bosibl y byddwch chi'n gallu cael lle ar Brentisiaeth Lefel Uwch neu Radd mewn maes perthnasol. Edrychwch ar ein herthygl gwybodaeth 'Prentisiaethau - Sut ydw i'n ymgeisio', am ragor o fanylion am ymgeisio am swyddi prentisiaeth. Yna, unwaith yr ydych chi wedi sicrhau sgiliau a phrofiad o fewn diwydiant perthnasol, mae'n bosibl y byddwch chi'n gallu ymgeisio am swyddi Peiriannydd Proses. Ffordd dda o ddechrau ar yr yrfa hon yw trwy interniaeth. Edrychwch ar ein herthygl wybodaeth 'Interniaethau', am ragor o fanylion. **Dilyniant** Gan ddibynnu ar y cymhwyster, gall Peirianwyr Proses symud ymlaen trwy gymryd mwy o gyfrifoldeb ar gyfer rheoli prosiectau peirianeg a thimau o Beirianwyr Proses. Mae rhai Peirianwyr Proses yn dewis dod yn hunangyflogedig neu gymryd gwaith cytundeb ar sail llawrydd. **Profiad Gwaith** Byddai profiad blaenorol o fewn swydd beirianeg (megis trydanol, cemegol a mecanyddol) yn ddefnyddiol ar gyfer yr yrfa hon. Byddai profiad o ddefnyddio cynllunio gyda chymorth cyfrifiadur yn ddefnyddiol iawn i ddechrau ar yr yrfa hon.

Cymwysterau

I gael lle ar gwrs gradd perthnasol, y gofynion arferol yw:

- 2/3 Safon Uwch, yn cynnwys cemeg fel arfer
- Cymwysterau TGAU yn eich pynciau Safon Uwch ar radd C neu uwch
- 2/3 TGAU arall ar radd C neu uwch

- Fel arfer, bydd angen TGAU mewn Saesneg, mathemateg a chemeg ar radd C/4 neu uwch

I gael lle ar Brentisiaeth Lefel Uwch, fel arfer bydd arnoch angen 5 TGAU ar radd C neu uwch, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, neu bydd angen i chi fod wedi cwblhau Prentisiaeth Lefel Canolradd.

Mae cymwysterau eraill yn cynnwys:

- BTEC cymwysterau lefel 3 cenedlaethol
- y Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol

Darllenwch brosbectysau yn ofalus.

Mae rhai prifysgolion yn derbyn cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn gyfwerth ag un Safon Uwch.

Cyfleoedd i Oedolion

Terfynau oedran

Mae'n anghyfreithlon i unrhyw sefydliad bennu terfynau oedran ar gyfer mynediad i waith, addysg neu hyfforddiant, oni bai eu bod yn gallu dangos bod gwir angen am y terfynau hyn.

Sgiliau/profiad

Mae llawer o bobl yn ymuno â'r yrfa hon ar ôl ennill sgiliau perthnasol, a chymwysterau o bosibl, mewn maes cysylltiedig fel:

- fferyllol
- y diwydiant proses gemegol
- peirianeg fecanyddol
- peirianeg weithgynhyrchu
- peirianeg gynhyrchu

Mae profiad technegol yn cael ei werthfawrogi'n fawr yn yr yrfa hon.

Gwybodaeth Bellach

Cysylltiadau

- **Semta**
Skills for science, engineering and manufacturing technologies
Cyfeiriad 14 Upton Road, Watford, Hertfordshire WD18 0JT
Ffôn 0845 6439001
E-bost customerservices@semta.org.uk
Gwefan www.semta.org.uk
- **Tomorrow's Engineers**
Publisher: EngineeringUK and Royal Academy of Engineering
E-bost contactus@tomorrowseengineers.org.uk
Gwefan www.tomorrowseengineers.org.uk
- **Engineering Construction Industry Training Board (ECITB)**
Cyfeiriad Blue Court, Church Lane, Kings Langley, Hertfordshire WD4 8JP
Ffôn 01923 260000
E-bost ecitb@ecitb.org.uk
Gwefan careers.ecitb.org.uk
- **Scottish Engineering**
Scottish enquiries
Cyfeiriad 105 West George Street, Glasgow G2 1QL

Ffôn 0141 2213181
E-bost consult@scottishengineering.org.uk
Gwefan www.scottishengineering.org.uk

- **Engineering Council**
Cyfeiriad 246 High Holborn, London WC1V 7EX
Ffôn 020 3206 0500
Gwefan www.engc.org.uk
- **Engineering Training Council Northern Ireland (ETC NI)**
Irish enquiries
Cyfeiriad Sketrick House, Ards Business Park, Jubilee Road, Newtownards BT23 4YH
Ffôn 028 9182 2377
E-bost info@etcni.org.uk
Gwefan www.etcni.org.uk
- **Careers Wales - Welsh Apprenticeships**
Ffôn 0800 028 4844
Gwefan ams.careerswales.com/

Gyrfaoedd sy'n gysylltiedig

- Peiriannydd Systemau
- Peiriannydd Dylunio
- Peiriannydd Gweithgynhyrchu
- Deifiwr
- Technegydd/Arbenigwr Profion Annistrywiol
- Technegydd Peirianneg Cynhyrchu
- Peiriannydd
- Peiriannydd Prosiect
- Peiriannydd Ansawdd
- Peiriannydd Diogelwch
- Peiriannydd Safle
- Peiriannydd Profi
- Peiriannwr CNC
- Peiriannydd Gwasanaethu Maes
- Peiriannydd Gwerthu
- Peiriannydd Seilwaith
- Peiriannydd Twneli
- Peiriannydd Amgylcheddol
- Gweithredwr Peiriant Turio
- Gosodwr Peipiau
- Peiriannydd Risg Llifogydd
- Peiriannydd Optegol
- Peiriannydd Offeryniaeth
- Peiriannydd Gyriant
- Peiriannydd Amledd Radio
- Peiriannydd Oeri
- Peiriannydd Priffyrdd